Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 26 Ebrill 2021 am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Jim Bryan, Christine Ellis, Ken Hawkins, Ethan Jones, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.
Y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

97. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Cafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Stephen Beach, John Wynne Hughes, Ian Lewney a Jabez Oakes.

98. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

99. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CYNNIG CANOL Y DRE

Croesawodd y Maer Reolwr Gyfarwyddwr Workplace Worksafe, Rhian Parry, i ddarparu diweddariad i'r cynghorwyr ynghylch y cynnydd o ran y cynnig ar gyfer menter gymdeithasol yn adeilad Canol y Dre i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i unigolion ag anawsterau dysgu a niwroamrywiaeth, trwy sefydlu podiau mewn gwahanol leoliadau. Byddai'r cyntaf, ar gyfer pobl yn gwneud pwytho diwydiannol, yn cael ei sefydlu'n Wrecsam yn fuan mewn partneriaeth gyda chwe sefydliad. Mae hi'n parhau i fod yn awyddus i sefydlu'r fenter hon yng Nghanol y Dre yn Rhuthun.
PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad a bod yr holl Gynghorwyr Tref o blaid y fenter mewn egwyddor, a chael adborth yn dilyn rhagor o drafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych.*

100. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi mynychu neu fod yn rhan o'r digwyddiadau isod:
06.04 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys

101. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod y Grŵp Cymorth Llifogydd.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod gyda Grŵp Trigolion Parc Seren ynghylch cyllid ar gyfer y maes chwarae a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod y Grŵp Cymorth Llifogydd.
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd.
Cyng. Anne Roberts	Sesiynau Stori Rhuthun – Manwerthu yn Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Cymorth Llifogydd, cyfarfod Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a chyfarfod gyda Grŵp Trigolion Parc Seren ynghylch cyllid ar gyfer y maes

chwarae.
Cyng. Mike van der Eijk Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn Dim i'w adrodd.

102. ADRODDIAD CYNGORHWYR SIR RHUTHUN
Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley wedi darparu adroddiad ysgifenedig ar ran y tri chynghorydd yn cynrychioli ward Rhuthun. Darparwyd diweddariad ar yr ymchwiliadau i'r allyriadau o safleoedd diwydiannol yn Lôn Gwernydd, gyda swyddogion cydymffurfio'n gweithio ar yr achos. Crybwyllwyd y cynlluniau ar gyfer Carchar Rhuthun yn y dyfodol hefyd. Roedd y llifogydd diweddar wedi bod yn fwy niweidiol i'r lleoliad nag a sylweddolwyd i ddechrau ac felly efallai na fydd modd iddo ailagor eleni.

103. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021 yn gofnodion cywir.*

104. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

105. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.*

106. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.*

107. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2021.*

108. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL
Gofynnwyd i'r aelodau nodi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd y Cyngor a'r Grŵp Craffu Dogfennau wedi ystyried yr adroddiad drafft yn fanwl yn flaenorol.
PENDERFYNWYD*: nodi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.*

109. FFI DIOGELU DATA
Gofynnwyd i'r aelodau gytuno i dalu'r ffi adnewyddu fel rheolydd data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gost o £40.
PENDERFYNWYD*: talu'r gost o £40 am gofrestru fel rheolydd data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.*

110. CYFRIFON BLYNYDDOL 2020-2021
Roedd yr aelodau wedi derbyn copi o'r Cyfrifon Blynyddol 2020-21 cyn y cyfarfod a diolchodd y Clerc i gwmni Hill & Roberts am eu cymorth yn eu paratoi.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol a defnyddio'r ffigurau fel sail ar gyfer llenwi'r Ffurflen Flynyddol.*

111. DATGANIAD ARIANNOL

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2021.*

112. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Viking	100 o stampiau ail ddosbarth	*	£69.48
BA	Hill & Roberts	Cyfrifo'r didyniadau pensiwn a pharatoi'r ffurflen diwedd y flwyddyn ar gyfer Cronfa Bensiwn Clwyd – Mawrth	*	£240.00
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol – Ebrill		£482.45
BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a thanysgrifiad Sage – Ebrill	*	£240.00
BA	Blachere Illumination UK Ltd	Llogi goleuaddau Nadolig	*	£3,789.25
BA	Canda Copying Ltd	Rhentu llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
BA	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£0.59
BA	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£12.25

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Gwasanaeth ffôn Cwmwl a band eang	*	£67.19
BA	Dŵr Cymru / Welsh Water	Ffioedd dŵr, carthffosiaeth a thâl gwasanaeth am y cyfnod 30 Medi 2020 – 26 Mawrth 2021		£258.61
BA	Scottish Power	Ffioedd trydan 18.12.2020 - 19.03.2021	*	£140.39

RHAN DAU

Penderfynwyd trafod yr eitem isod yn breifat, oherwydd datgelu tebygol gwybodaeth sensitive. Penderfynwyd ar hyn a cafodd y ffrydio byw ei ddiffodd ar y pwynt hwn.

113. SWYDD CLERC Y DREF

Hysbyswyd yr aelodau fod y Clerc wedi cyflwyno ei hysbysiad ymddiswyddo a thrafodwyd y camau nesaf ar gyfer recriwtio i'r swydd.

PENDERFYNWYD*: dechrau'r broses recriwtio a gwneud trefniadau ar gyfer y cyfnod interim.*

114. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 17 Mai 2021 am 7pm.*